CYNGOR SIR PENFRO

ADRODDIAD BLYNYDDOL SAFONAU'R GYMRAEG 17/18

Paratowyd Safonau'r Gymraeg o dan Fesurau'r Gymraeg (Cymru) 2011 (1) a Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 a ddaeth i rym ar 31 Mawrth 2015.

Mae'r dyletswydd sy'n deillio o'r safonau yn golygu Cyngor Sir Penfro sicrhau bod yr Iaith Gymraeg yn cael ei thrin yr un mor ffafrifol â'r Iaith Saesneg ac i hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r Gymraeg.

Yn unol â Safonau 158,164 a 170 o Safonau'r Gymraeg, gofynnir i Gyngor Sir Penfro gyhoeddi adroddiad blynyddol sy'n nodi sut rydym wedi cydymffurfio â:

Safonau cyflenwi gwasanaethau 1 i 87

Safonau llunio polisïau 88 i 97

Safonau gweithredol 98 i 141

CYNNWYS

Cyflwyniad	tudalen 3
Cyflenwi Gwasanaethau	tudalen 5
Llunio Polisiau	tudalen 8
Gweinyddu Mewnol	tudalen 11
Strategaeth pum mlynedd	tudalen 15
Cadw cofnodion	tudalen 16
Atodiad 1	tudalen 18
Atodiad 2	tudalen 19
Atodiad 3	tudalen 20
Atodiad 4	tudalen 21

CYFLWYNIAD

Mae Cyngor Sir Penfro yn Awdurdod Lleol unedol sy'n gwasanaethu tua 123,000 o boblogaeth. O'r rhain, mae 22,000 (18%) o dan 16 oed, a 27,900 (23%) yn 65 oed a throsodd. Mae tua 70% o'r boblogaeth rhwng 16 a 64 oed mewn cyflogaeth – mae tua chwarter y bobl a gyflogir yn Sir Benfro yn hunangyflogedig.

O'r cwestiynau am y Gymraeg yn y cyfrifiad a gynhaliwyd ar 27 Mawrth 2011, o boblogaeth gyfan o 118,392, gallai 19.2% o'r boblogaeth dros 3 blwydd oed siarad Cymraeg. Y ganran ar gyfer Cymru gyfan yw 19%. Yng nghyfrifiad 2001 o ran Sir Benfro roedd ffigur o 20.4% i'r un grŵp oedran.

Yn ôl Arolwg y Gymraeg 2013-2015, o'r 22,800 o siaradwyr Cymraeg, dywedodd 9,600 (42%) eu bod yn siarad Cymraeg yn rhugl. Ar y cyfan, dywedodd tua 11,000 o bobl, neu 48% o'r siaradwyr Cymraeg, eu bod yn siarad Cymraeg bob dydd, sef y 6^{ed} cyfran uchaf o ardaloedd Awdurdod Lleol Cymru.

Mae Cyngor Sir Penfro'n cynnwys 60 o Gynghorwyr sydd oll yn cynrychioli preswylwyr mewn gwahanol rannau o Sir Benfro. Mae'n cyflogi tua 7,200 o staff. Mae pum Cyfarwyddiaeth yn ymdrin â'r ystod eang o waith:-

- Swyddfa Prif Gweithredol
    - ✓ Cludiant a'r Amgylchedd
    - ✓ Cyllid
    - ✓ Datblygiad
    - ✓ Gwasanaethau Cymdeithasol
    - ✓ Plant ac Ysgolion.

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (1) yn gwneud darpariaeth ar gyfer enwi'r safonau ymddygiad mewn perthynas â'r Gymraeg ("safonau"). Mae'r safonau hyn yn disodli system y Cynlluniau Iaith Gymraeg yr oedd Deddf Iaith Gymraeg 1993 (pennod 38) yn darparu ar eu cyfer.

- Mae Atodlen 1 i'r Rheoliadau'n enwi'r safonau cyflenwi gwasanaethau (safonau 1 i 87) sy'n gysylltiedig â gweithgarwch cyflenwi gwasanaethau, a'u bwriad yw hyrwyddo neu hwyluso defnyddio'r Gymraeg, neu weithio tuag at sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin yr un mor ffafriol â'r Saesneg pan fydd y gweithgarwch hwnnw'n digwydd.

- Mae Atodlen 2 i'r Rheoliadau'n enwi'r safonau llunio polisïau (safonau 88 i 97) sy'n gysylltiedig â phenderfyniad polisi, a'u bwriad yw sicrhau neu gyfrannu at sicrhau bod y sawl sy'n gwneud y penderfyniad polisi yn ystyried yr effeithiau

(cadarnhaol neu andwyol) ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, neu ar drin y Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg, ac yn gweithredu ynghylch unrhyw effaith andwyol.

- Mae Atodlen 3 i'r Rheoliadau'n enwi'r safonau gweithredol (safonau 98 i 144) sy'n gysylltiedig â'r swyddogaethau, neu fusnes neu fenter arall a gynhelir gan yr Awdurdod gyda'r bwriad o hyrwyddo neu hwyluso defnyddio'r Gymraeg.

- Mae Atodlen 4 i'r Rheoliadau'n enwi'r safonau hyrwyddo (safonau 145 a 146) sy'n bwriadu hyrwyddo neu hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ehangach.

- Mae Atodlen 5 i'r Rheoliadau'n enwi'r safonau cadw cofnodion (safonau 147 i 154) sy'n gysylltiedig â chadw cofnodion gan gynnwys cwynion yn ymwneud â chydymffurfio â safonau eraill a enwir, neu gofnodion am gwynion eraill yn ymwneud â'r Gymraeg.

- Mae Atodlen 6 i'r Rheoliadau'n enwi'r safonau sy'n ymdrin â materion atodol (safonau 155 i 176).

CYFLENWI GWASANAETHAU

Cyflenwi gwasanaethau - mae'r Cyngor yn gyfrifol am gyflenwi'r ystod gyflawn o wasanaethau llywodraeth leol i breswylwyr, busnesau ac ymwelwyr.

Mae'r ffordd y caiff gwasanaeth ei gyflenwi i'r cyhoedd yn amrywio yn ôl ei natur a'i faint. I ni yn cynnig ystod eang o wasanaethau i'n gwsmeriaid. Ychydig o'n gwasanaethau niferus yw ysgolion, gofal cymdeithasol, llyfrgelloedd, cynnal a chadw ffyrdd a chanolfannau. Mae Pencadlys y Cyngor yn Neuadd y Sir yn Hwlffordd ond hefyd mae'r Cyngor yn gweithredu Canolfannau Gwasanaethau Cwsmeriaid yn Hwlffordd, Abergwaun, Aberdaugleddau, Neyland a Doc Penfro lle gall y cyhoedd wneud taliadau a gwneud ymholiadau. Yn ogystal, cyflenwir gwasanaethau eraill o ganghennau, depos, canolfannau, a gweithleoedd eraill.

Ni ddarperir pob gwasanaeth yn uniongyrchol gan y Cyngor. Darperir rhai gan asiantaethau neu gyrff eraill a gontractiwyd i'r Cyngor Sir. Yn unol â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 "mae cyfeiriadau at unrhyw weithgaredd sy'n cael ei gyflawni gan gorff, neu at unrhyw wasanaeth sy'n cael ei ddarparu gan gorff, i'w darllen fel pe baent yn cynnwys cyfeiriad at y gweithgaredd hwnnw yn cael ei gyflawni ar ran y corff, neu at y gwasanaeth hwnnw yn cael ei ddarparu ar ran y corff, gan drydydd parti o dan drefniadau a wneir rhwng y trydydd parti a'r corff".

Mae'r Cyngor wedi cyflwyno canllawiau a pholisïau i helpu cyflogeion i ddeall eu rhan mewn cyflawni Safonau'r Gymraeg drwy:

- Nodi'r safon gyfathrebu a ddisgwylir;
- Amlinellu pa wasanaethau cymorth ac adnoddau sydd ar gael.

A. Mae ***Safonau, Gwasanaethau ac Adnoddau Cyfathrebu, canllaw i gyflogeion*** sy'n adlewyrchu Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 yn rhoi canllawiau i bob agwedd ar gyfathrebu gan gynnwys:-

    - Cyfathrebu ysgrifenedig
    - Dyluniad unrhyw ddeunyddiau
    - Y gofyniad i ddefnyddio cyfeiriad gwefan y Cyngor yn Gymraeg ac yn Saesneg ar holl ddeunydd cyfathrebu neu farchnata. www.sir-benfro.gov.uk; www.pembrokeshire.gov.uk
    - Cyfathrebu ar y ffôn
    - Ymweliadau personol gan y cyhoedd
    - Trefnu a chynnal cyfarfodydd a digwyddiadau
    - Gwefannau, gwasanaethau ar-lein a chyfryngau cymdeithasol

- Hysbysebu a chyhoeddusrwydd
- Gwasanaethau cyfieithu
- Datganiadau i'r wasg
- Arwyddion ffordd a hysbysiadau swyddogol

Mae'r canllawiau'n sicrhau cysondeb mewn perthynas â gweithredu Safonau'r Gymraeg/ yn helpu cyflogeion i ddeall eu rhan mewn cydymffurfio â gofynion Safonau'r Gymraeg/ yn amlinellu'r adnoddau a'r cymorth sydd ar gael er mwyn cydymffurfio.

B. Yn y ddogfen ***Gwybodaeth Atodol i Reolwyr ac Uwch Swyddogion*** mae canllawiau i agweddau cyflenwi gwasanaethau penodol ar Safonau'r Gymraeg y byddai angen i Reolwyr fod yn ymwybodol ohonynt ac y byddai gofyn iddynt eu lledaenu i'r staff perthnasol yn eu hadran unigol.

Mae'r ddogfen yn cynnwys canllawiau i feysydd megis:-

- <u>Cyrsiau Addysg sy'n agored i'r cyhoedd</u>

Mae'r Cyngor yn cynnig cyrsiau addysg a ddarperir er mwyn addysgu aelodau'r cyhoedd neu wella eu sgiliau. Mae'r geiriad ar ein gwefan fel a ganlyn:-

"Er mwyn rhedeg cwrs mae angen isafswm o bobl i gymryd rhan. Ein nod yw darparu cyrsiau dwyieithog ble mae'n ymarferol bosibl. Pan fyddwch yn gofyn am gymryd rhan mewn cwrs, byddwn yn gofyn i chi os hoffech chi gymryd rhan yn Gymraeg yn unig. Byddwn yn darparu cyrsiau mewn Cymraeg yn unig pan fydd y niferoedd wedi cyrraedd yr isafswm sydd ei angen i redeg cwrs".

- <u>Darparu Cyllid Grant</u>

Datblygwyd polisi ar ddyfarnu grantiau yn unol â safon 94 o Safonau'r Gymraeg

Bydd unrhyw ddogfennau a gyhoeddir mewn perthynas â chais am grant yn cael eu cyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg ac ni fyddant yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol o gwbl na'r Saesneg.

Bydd y ffrâm amser ar gyfer cyflwyno ac ystyried cais am grant i'r Cyngor yr un fath i gyflwyniadau Cymraeg ag y bydd i gyflwyniadau Saesneg.

Efallai bydd y Cyhoedd yn cyfweld ag aelod o'r cyhoedd mewn perthynas â cheisiadau am grantiau. Bydd staff y Cyngor sy'n trefnu'r cyfweliad yn gofyn i'r ymgeisydd neu'r ymgeiswyr a ydynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfweliad hwnnw. Bydd y gwahoddiad yn cadarnhau y bydd y Cyngor yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd os dymunir defnyddio'r Gymraeg yn y cyfweliad.

- Caffael

Mae'r Cyngor yn cynnig canllawiau drwy nodyn gweithdrefn Caffael 02/2016 i swyddogion sy'n ymwneud â chontractio a chomisiynu, sy'n amlinellu cyfrifoldebau'r Cyngor yn unol â Safonau'r Gymraeg.

Bydd unrhyw wahoddiadau i dendro am gontract yn nodi y ceir cyflwyno tendrau yn Gymraeg ac y bydd tendr a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yr un mor ffafriol â thendr a gyflwynir yn Saesneg.

Bydd y ffrâm amser ar gyfer cyflwyno ac ystyried tendr i'r Cyngor yr un fath i gyflwyniadau Cymraeg ag y bydd i gyflwyniadau Saesneg.

Efallai bydd y Cyngor yn cyfweld â thendrwr mewn perthynas â thendr ar gyfer contract. Bydd staff y Cyngor sy'n trefnu'r cyfweliad yn gofyn i'r sawl sy'n tendro a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfweliad hwnnw. Bydd y gwahoddiad yn cadarnhau y bydd y Cyngor yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd os dymunir defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfodydd.

C. Cyflwynwyd tudalen bwrpasol ar dudalen gartref gwefan fewnol y Cyngor. Diweddarir y dudalen hon bob hyn a hyn er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ofynion y Gymraeg ac mae'n cynnwys:-

    - Safonau'r Gymraeg.
    - Safonau, Gwasanaethau ac Adnoddau Cyfathrebu, canllaw i gyflogeion.
    - Polisi Defnyddio'r Gymraeg yn fewnol.
    - Y Polisi Dyfarnu Grantiau.
    - Rhaglen gynwysfawr o hyfforddiant yn y Gymraeg

LLUNIO POLISÏAU

Mae'r Cyngor yn gyfrifol wrth ffurfio polisi newydd (neu adolygu polisi presennol) am ystyried yr effaith a gaiff penderfyniad polisi ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg.

Mae'r Cyngor wedi cyflwyno canllawiau a pholisïau i helpu cyflogeion i ddeall eu rhan mewn cyflawni Safonau'r Gymraeg drwy:

- Nodi gofynion y safonau llunio polisïau
- Amlinellu pa wasanaethau cymorth ac adnoddau sydd ar gael.

A. Mae'r ddogfen ***Gwybodaeth Atodol i Reolwyr ac Uwch Swyddogion*** yn rhoi canllawiau i swyddogion sy'n gyfrifol am ddatblygu polisïau sy'n amlinellu cyfrifoldebau'r Cyngor o ran:-

- Llunio polisïau, ymgynghori ac ymchwil
- Darparu cyllid grant
- Caffael (contractio a chomisiynu)
- Caffael (cymal y Gymraeg).

- *<u>Llunio polisïau, Ymgynghori ac Ymchwil</u>*

Pan fydd y Cyngor yn ystyried polisi newydd neu'n adolygu polisi presennol, bydd – yn unol â safonau 88 i 97:-

- Yn ystyried a ydy penderfyniad polisi'n cael effaith gadarnhaol neu andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Os oes effaith andwyol, bydd yn ystyried a ellir newid y polisi i gael effaith gadarnhaol neu effaith lai andwyol.
- Yn ymgynghori i geisio barn ynghylch a ydy penderfyniad polisi'n cael effaith gadarnhaol neu andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg neu ar peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Os oes effaith andwyol, bydd yn ceisio barn ar sut y gellir newid y polisi i gael effaith gadarnhaol neu effaith lai andwyol.

- Yn gwneud gwaith ymchwil i ganfod a ydy'r penderfyniad polisi yn cael effaith gadarnhaol neu andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Os oes effaith andwyol, sicrheir bod yr ymchwil yn ystyried sut gellid gwneud y polisi fel y caiff effaith gadarnhaol neu effaith lai andwyol.

Adolygwyd yr offeryn asesu effaith integredig corfforaethol presennol er mwyn ystyried gofynion Safonau'r Gymraeg. Enwir swyddog cyswllt yn y canllawiau atodol a chynghorir rheolwyr i ofyn am gymorth wrth geisio rhagweld effaith strategaethau a pholisïau arfaethedig ar faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth, datblygu cynaliadwy, y Gymraeg a lles. Lluniwyd cyfres o gwestiynau safonol i gynorthwyo wrth gasglu data ar effeithiau posibl ar y Gymraeg a defnyddir y data hwnnw a gasglir i lywio'r offeryn asesu effaith integredig corfforaethol.

- *Darparu Cyllid Grant*

Bydd unrhyw ddogfennau a gyhoeddir sy'n gysylltiedig â chais am grant yn cael eu cyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg ac ni fyddant yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol o gwbl na'r Saesneg.

Datblygwyd "Polisi ar Ddyfarnu Grantiau – Haf 2016" sy'n ei gwneud yn ofynnol ac yn orfodol i'r holl rai sy'n gofyn am gymorth grant gan y Cyngor lenwi ffurflen gais. Mae'r polisi'n rhoi canllawiau clir ar unrhyw ddarpariaeth grant a esgusodir o Safonau'r Gymraeg a bydd yn sicrhau bod:-

- Y Cyngor yn ystyried unrhyw effaith ar y Gymraeg pan fyddwn yn dyfarnu grantiau;

- Yr iaith yn cael ei defnyddio'n briodol mewn unrhyw weithgarwch y byddwn yn rhoi cyllid grant iddo.

- *Caffael (Contractio a Chomisiynu)*

Mae gan y Cyngor ganllawiau i swyddogion sy'n ymwneud â gwaith partneriaeth sy'n amlinellu ei gyfrifoldebau yn unol â Safonau'r Gymraeg.

Mae nodyn gweithdrefn gaffael 02/2016 yn cynghori'r staff y bydd y swyddog cyswllt caffael a enwir yn mynd i'r afael â'r gofyniad i gwblhau rhestr wirio'r Cyngor, wrth baratoi gwahoddiad i dendro. Mae cynnwys y rhestr wirio'n cadarnhau'r gofyniad i drin y Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg o ran gohebiaeth/cyfweliadau a chyfarfodydd.

- *Caffael (Cymal Gorfodol y Gymraeg)*

Bydd Cymal y Gymraeg yn cael ei gynnwys ym mhob dogfennaeth mewn Gwahoddiad i Dendro. Mae'r cymal yn pwysleisio y bydd "Rhaid i'r cyflenwr gydymffurfio â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 bob amser a'r safonau a nodir yn Hysbysiad Cydymffurfio'r Cwsmer fel pe bai ef oedd y Cwsmer i'r graddau bod yr un safonau yn ymwneud â darparu'r Gwasanaethau/Nwyddau. Rhaid i'r cyflenwr ddehongli'r Safonau fel pe baent mewn grym fel ar ddyddiad y contract".

GWEINYDDU MEWNOL

Mae safonau gweithredol yn berthnasol i ddefnyddio'r Gymraeg yn y Cyngor.

Mae'r Cyngor wedi cyflwyno canllawiau a pholisïau i helpu cyflogeion i ddeall eu rhan mewn cyflawni Safonau'r Gymraeg drwy:

- Nodi ei ymrwymiad i ddefnyddio'r Gymraeg yn ei weinyddu mewnol;
- Amlinellu pa wasanaethau cymorth ac adnoddau sydd ar gael.

A. Mae cyflwyniad **polisi Defnyddio'r Gymraeg yn Fewnol** yn rhoi canllawiau i arfer da wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle a dealltwriaeth o'r ddyletswydd i weithredu'n unol â Safonau'r Gymraeg. Mae'r polisi'n egluro ymrwymiad y Cyngor i ddefnyddio'r Gymraeg yn ei weinyddu mewnol.

B. Cyflwynwyd tudalen bwrpasol ar dudalen gartref gwefan fewnol y Cyngor. (Mae Safon 125 o Safonau'r Gymraeg yn mynnu bod y Cyngor yn dynodi a chynnal tudalen ar ei fewnrwyd i gynorthwyo ei gyflogeion i ddefnyddio'r Gymraeg). Diweddarir y dudalen hon bob hyn a hyn i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ofynion y Gymraeg. Fe'i defnyddir ar gyfer materion cyfredol/pynciol ac mae'n darparu:

- Safonau, Gwasanaethau ac Adnoddau Cyfathrebu, canllaw i gyflogeion.
- Gwybodaeth Atodol i Reolwyr ac Uwch Swyddogion
- Safonau'r Gymraeg.
- Polisi Defnyddio'r Gymraeg yn fewnol
- Polisi Dyfarnu Grantiau
- Taflen ffeithiau ar ateb y ffôn/trefnu cyfarfodydd a digwyddiadau/e-bost a llythyrau
- Manylion cyrsiau Cymraeg wedi'u cynllunio i bob lefel a sut mae ymgeisio.
- Cyfeiriad at fodiwl e-ddysgu Ymwybyddiaeth am y Gymraeg
- Canllaw i Reolwyr – Gwerthuso Perfformiad.
- Hunanasesu anghenion hyfforddiant yn y Gymraeg

C. Mae'r ddogfen ***Gwybodaeth Atodol i Reolwyr ac Uwch Swyddogion*** yn rhoi canllawiau i Safonau'r Gymraeg mewn perthynas â defnyddio'r Gymraeg yn y

Cyngor. Mae'n cynnal meysydd penodol y byddai angen i'r Rheolwyr fod yn ymwybodol ohonynt ac y byddai'n ofynnol iddynt eu lledaenu i staff perthnasol yn eu hadran unigol.

Mae'r ddogfen yn cynnwys canllawiau ar feysydd megis:-

- Recriwtio a Phenodiadau
- Gwerthuso Perfformiad a Hyfforddiant
- Arferion Cyflogaeth

- *Recriwtio a Phenodiadau*

Ystyrir bod gallu ieithyddol ymhlith y sgiliau perthnasol wrth benodi staff o dan y Polisi Recriwtio.

Cynghorwyd y staff sy'n gyfrifol am recriwtio a dewis cyflogeion:-

- Fod gofyn asesu sgiliau Cymraeg mewn perthynas â phob swydd wag fel un o'r canlynol:-
    - Bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol;
    - Bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir rhywun i'r swydd;
    - Bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol;
    - Nad oes angen sgiliau yn y Gymraeg.
- Bod gofyn categoreiddio gofyniad sgiliau Cymraeg swyddi derbynfa/rheng flaen newydd a gwag yn ôl y categori "mae angen dysgu sgiliau Cymraeg ar ôl penodi i'r swydd".
- Bod ymgeiswyr:-
    - Yn gallu cyflwyno cais naill ai yn Gymraeg neu'n Saesneg;
    - Yn cael gwybod y gallant ofyn am gynnal y broses gyfweld drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg.
    - yn deall bod trefniant yn cael ei wneud i ddarparu cyfieithu ar y pryd mewn cyfweliad lle gofynnwyd am ddefnyddio'r Gymraeg.
- Bod ffurflenni archeb cyflogeion a ffurflenni cais y cyflogeion wedi'u diwygio'n briodol.

- Bod y Cyngor:-

    - Wrth gynnig swydd newydd i unigolyn, yn gofyn i'r unigolyn hwnnw a yw'n dymuno cael y contract cyflogaeth yn Gymraeg ac, os felly, yn darparu hwn yn Gymraeg.

    - Yn gofyn i bob cyflogai a yw'n dymuno cael unrhyw ohebiaeth bapur sy'n gysylltiedig â'i gyflogaeth, ac sy'n cael ei chyfeirio ato'n bersonol, yn Gymraeg ac, os felly, yn darparu hyn yn Gymraeg.

- *Gwerthuso perfformiad a Hyfforddiant*

Mae gan y Cyngor system Gwerthuso Perfformiad sydd wedi'i hen sefydlu – ac un o'i dibenion yw dadansoddi anghenion hyfforddi generig (gan gynnwys sgiliau Cymraeg). Mae gwaith papur gwerthuso perfformiad ar gael ar y fewnrwyd drwy gyfrwng y Gymraeg ac mae staff yn cael gwybod ei fod ar gael.

Mae'r Cyngor yn dal ati i gynnal dadansoddiad llawn o anghenion hyfforddi o ran Sgiliau Cymraeg ei staff a darparu rhaglen hyfforddi Cymraeg dwys i staff ar bob lefel, a hynny i gaffael ac i wella sgiliau Cymraeg. Cynhelir cyrsiau mewn mannau amrywiol a thrwy ddysgu ar-lein.

Mae tudalen gartref gwefan fewnol y Cyngor, a elwir yn fewnrwyd, yn rhoi gwybod am y cyrsiau Cymraeg sydd ar gael a sut mae ymgeisio.

Mae Safon 129 yn mynnu bod y Cyngor yn darparu hyfforddiant (trwy gyfrwng y Gymraeg) ar ddefnyddio'r Gymraeg yn effeithiol mewn cyfarfodydd / cyfweliadau / cwynion a gweithdrefnau disgyblu. Fe wnaethom sefydlu grwp gorchwyl a gorffen er mwyn trafod gofynion hyfforddi staff sgiliau iaith lefel 4 a 5. Sefydlwyd gweithdai yn unol â hynny. Mae hyfforddiant pwrpasol sy'n benodol i'r adran ar gael hefyd.

Hyrwyddir cyfleoedd i gyflogeion gael hyfforddiant ymwybyddiaeth am y Gymraeg drwy e-ddysgu, yn adran Dysgu a Datblygiad mewnrwyd y Cyngor. Mae hyn yn rhoi gwybod i'n cyflogeion am hanes y Gymraeg a'i rôl yn niwylliant Cymru, dealltwriaeth o'r ddyletswydd i weithredu yn unol â Safonau'r Gymraeg, a dealltwriaeth o'r ffordd y gellir defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

Ymgorfforwyd adran ymwybyddiaeth am y Gymraeg hefyd yn y sesiwn Croeso Corfforaethol i bob cyflogai newydd.

- *Arferion Cyflogaeth.*

Mae'r polisïau Disgyblu a Chwyno yn hyrwyddo'r hawl i gael pob gohebiaeth/mynychu pob cyfweliad neu gyfarfod drwy gyfrwng y Gymraeg.

Ar y fewnrwyd mae polisïau dwyieithog mewn perthynas ag:-

- Ymddygiad yn y Gweithle
- Cyflogau neu Fuddion y Gweithle
- Rheoli Perfformiad
- Amodau Gwaith
- Patrymau Gwaith.

CH. Mae **Safonau, Gwasanaethau ac Adnoddau Cyfathrebu, canllaw i gyflogeion**, yn darparu canllawiau i'r holl gyflogeion am ofynion Safonau'r Gymraeg gan gynnwys:-

- Cyfeiriad at Safonau'r Gymraeg yn eu cyfanrwydd.
- Cyngor ar gyfathrebu ysgrifenedig gan gynnwys llythyrau, e-bost, ffurflenni a holiaduron wedi'u hargraffu:-
    - Logos Cyngor Sir Benfro;
    - Gwasanaethau dylunio ac argraffu;
    - Templedi pennawd llythyr electronig corfforaethol;
    - Llofnod awtomatig / ateb awtomatig allan o'r swyddfa electronig corfforaethol ar gyfer e-bost;
    - Deunyddiau cyhoeddusrwydd a hysbysebu
- Cyngor ar gyfathrebu dros y ffôn.
- Cyngor ar safleoedd Gwe - Facebook, Twitter a rhwydweithio cymdeithasol. Mae'r polisi Cyfryngau Cymdeithasol dwyieithog ar gael i'w lwytho i lawr o'r fewnrwyd.
- Cyngor ar drefnu a chynnal cyfarfodydd a digwyddiadau.
- Cyngor ar y gwasanaeth cyfieithu a ddefnyddir gan y Cyngor a sut mae cael at y gwasanaeth/ei ddefnyddio.
- Cyngor ar dderbyn ymwelwyr.
- Cyngor ar hyrwyddo cyfeiriadau gwefan Cymraeg a Saesneg mewn unrhyw gyfathrebu neu ddeunydd marchnata.

Mae'r canllaw'n sicrhau cysondeb mewn perthynas â gweithredu Safonau'r Gymraeg/yn helpu cyflogeion i ddeall eu rhan mewn cydymffurfio â gofynion Safonau'r Gymraeg/ yn amlinellu'r adnoddau a'r cymorth sydd ar gael er mwyn cydymffurfio.

D. Hyrwyddir ymagwedd ragweithiol at argaeledd gwasanaeth yn y Gymraeg:-

- Mae llinynnau gwddf ar gael i'r holl staff sy'n siarad Cymraeg a dysgwyr Cymraeg i ddynodi'r sgil hwnnw.
- Arddangosir arwyddion Cymraeg yn nerbynfeydd y Cyngor i gynghori cwsmeriaid fod croeso iddynt ddefnyddio'r Gymraeg yn y dderbynfa honno.
- Cynghorir cwsmeriaid fod hawl ganddynt ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfod os dyna yw eu dewis ac y bydd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael yn y cyfarfodydd hynny. Cyflwynwyd datganiad corfforaethol i'w ddefnyddio ar bob gwahoddiad felly wrth drefnu cyfarfodydd.

STRATEGAETH PUM MLYNEDD

Mae Safon 145 o Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor hwn gynhyrchu a chyhoeddi ar ei wefan strategaeth 5 mlynedd, sy'n egluro sut yr ydym yn bwriadu hybu'r Gymraeg a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn ehangach yn Sir Benfro.

Paratowyd y strategaeth o fewn fframwaith polisi a chyd-destun ehangach amrywiol strategaethau (gan gynnwys Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg) ac ar weiniaudau a fabwysiadwyd neu sy'n cael eu datblygu gan Gyngor Sir Penfro.

Cymeradwywyd y strategaeth gan y Cabinet ar 12fed o Chwefror 2018 ac ma ar gael ar dudalen Gymraeg gwefan y Cyngor.

CADW COFNODION

A. Mae'r Cyngor yn cynnal Dadansoddiad o Anghenion Hyfforddi'r Gymraeg parhaus i nodi sgiliau Cymraeg yr holl gyflogeion (i gynnal yr wybodaeth ddiweddaraf am lefel y sgiliau a chynorthwyo i gynnig yr hyfforddiant Cymraeg priodol).

Cedwir cofnod o nifer y cyflogeion sydd â sgiliau Cymraeg ym mhob blwyddyn ariannol a chofnod o lefel sgiliau'r cyflogeion hynny.
Gweler atodiad 1.

B. Cedwir cofnod ym mhob blwyddyn ariannol o nifer y staff sydd wedi cwblhau hyfforddiant yn y cyrsiau canlynol (lle mae'r Cyngor yn darparu'r cwrs ar hyn o bryd drwy gyfrwng y Saesneg):-

- Recriwtio a Chyfweld
- Rheoli Perfformiad
- Gweithdrefn Cwyno a Disgyblu
- Cynefino
- Delio â'r Cyhoedd
- Iechyd a Diogelwch

Gweler atodiad 2.

C. Mae'r Cyngor yn anelu at gael nifer ddigonol o staff Cymraeg eu hiaith ar gael i ddarparu gwasanaethau effeithlon o ansawdd i'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg. Mae gofyn i reolwyr asesu sgiliau Cymraeg mewn perthynas â phob swydd wag a'u categoreiddio fel a ganlyn:-

- Bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol;
- Bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir rhywun i'r swydd;
- Bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol;
- Nad oes angen sgiliau yn y Gymraeg.

Mae'r asesiad yn ddyfarniad gan reolwyr ar sail dyletswyddau ac amgylchedd gweithredu'r swydd dan sylw.

Cedwir cofnod ym mhob blwyddyn ariannol o bob asesiad a gynhaliwyd o ran y gofyniad sgiliau Cymraeg mewn perthynas â swydd newydd neu swydd wag a lefel y gofyniad sgiliau ar gyfer y swydd honno.

Gweler atodiad 3.

CH. Mae'r Cyngor yn cofnodi ac yn ymateb i gwynion yn erbyn diffyg cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yn briodol. Cedwir cofnod(ion) blynyddol o gwynion yn erbyn diffyg cydymffurfio â'r canlynol:-

- Safonau cyflenwi gwasanaethau;
- Safonau llunio polisïau;
- Safonau gweithredol

Gweler atodiad 4.

ATODIAD 1

Mae Safon 127 o Safonau'r Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor hwn asesu sgiliau Cymraeg ein cyflogeion.

Mae Safon 151 o Safonau'r Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor hwn gadw cofnod o:-

- Nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau Cymraeg ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol
- Lefel sgil y cyflogeion hynny.

Mae Safon 170 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor hwn lunio adroddiad mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol a ddylai gynnwys y wybodaeth ganlynol:-

- Nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau Cymraeg ar ddiwedd blwyddyn ariannol 17/18.

Dengys canlyniadau Dadansoddiadau Anghenion Hyfforddi parhaus fod 1462 o aelodau o staff wedi cwblhau'r Hunanasesiad o Anghenion Hyfforddi Cymraeg a bod 840 o'r rhain wedi cadarnhau eu bod yn meddu ar sgiliau Cymraeg ar lefel 1 neu uwch.

ATODIAD 2

Mae Safon 128 o Safonau'r Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor hwn ddarparu hyfforddiant yn Gymraeg yn y meysydd canlynol, os ydym yn darparu hyfforddiant o'r fath yn Saesneg:-

- Recriwtio a chyfweld
- Rheoli perfformiad
- Gweithdrefnau cwyno a disgyblu
- Ymsefydlu
- Delio â'r cyhoedd
- Iechyd a diogelwch

Mae Safon 152 o Safonau'r Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor hwn gadw cofnod ar gyfer pob blwyddyn ariannol o:-

- Nifer y cyflogeion a ddilynodd y cyrsiau hyfforddi uchod a gynigiwyd gan y Cyngor yn Gymraeg
- Canran o gyfanswm y cyflogeion a ddilynodd y cwrs a ddilynodd y fersiwn honno.

Mae Safon 170 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor hwn lunio adroddiad mewn perthynas â blwyddyn ariannol 17/18 a ddylai gynnwys y wybodaeth ganlynol:-

- Nifer y cyflogeion a ddilynodd y cyrsiau hyfforddi uchod a gynigiwyd gan y Cyngor yn Gymraeg
- Canran o gyfanswm nifer y cyflogeion a ddilynodd y cwrs a ddilynodd y fersiwn honno.

Gwnaeth 2 aelod o staff ddilyn y cyrsiau hyfforddi uchod a gynigiwyd gan y Cyngor yn Gymraeg .41% Canran o gyfanswm y cyflogeion a ddilynodd y cwrs a ddilynodd y fersiwn honno.

ATODIAD 3

Mae Safon 136 o Safonau'r Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor hwn asesu'r angen am sgiliau Cymraeg ar gyfer swydd newydd neu swydd wag a'i chategoreiddio fel swydd lle mae un neu ragor o'r canlynol yn berthnasol:-

- Bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol;
- Bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodi rhywun i'r swydd;
- Bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol;
- Nad yw sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol.

Mae Safon 154 o Safonau'r Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor hwn gadw cofnod, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol o nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a gategoreiddiwyd yn unol â Safon 136.

Mae Safon 170 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor hwn lunio adroddiad mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol a ddylai gynnwys y wybodaeth ganlynol:-

Nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a hysbysebwyd yn ystod blwyddyn ariannol 17/18 a gategoreiddiwyd yn unol â Safon 136:-

- Categoreiddiwyd 43 (7.73%) o swyddi newydd neu swyddi gwag fel rhai lle mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol;
- Categoreiddiwyd 25 (4.5%) o swyddi newydd neu swyddi gwag fel rhai lle mae angen dysgu sgiliau Cymraeg ar ôl i berson gael ei benodi i'r swydd;
- Categoreiddiwyd 359 (64.57%) o swyddi newydd neu swyddi gwag fel rhai lle mae sgiliau Cymraeg yn ddymunol;
- Categoreiddiwyd 129 (23.2%) o swyddi newydd neu swyddi gwag fel rhai lle nad oes angen sgiliau Cymraeg.

[Cofnodwyd swyddi staff addysgu a staff cynorthwyo dysgu]

ATODIAD 4

Mae Safon 147 o Safonau'r Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor hwn gadw cofnod mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol o nifer y cwynion a dderbyniwyd mewn perthynas â'n cydymffurfiad â'r safonau.

Mae Safon 158 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor hwn lunio adroddiad mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol am nifer y cwynion a dderbyniwyd yn ystod blwyddyn ariannol 17/18 oedd yn ymwneud â'n cydymffurfiad â'r safonau cyflawni gwasanaeth, y mae dyletswydd arnom i gydymffurfio â hwy yn ystod y flwyddyn honno.

Mae Safon 164 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor hwn lunio adroddiad mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol am nifer y cwynion a dderbyniwyd yn ystod blwyddyn ariannol 17/18 oedd yn ymwneud â'n cydymffurfiad â'r safonau llunio polisi, y mae dyletswydd arnom i gydymffurfio â hwy yn ystod y flwyddyn honno.

Mae Safon 170 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor hwn lunio adroddiad mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol am nifer y cwynion a dderbyniwyd yn ystod blwyddyn ariannol 17/18 oedd yn ymwneud â'n cydymffurfiad â'r safonau gweithredu, y mae dyletswydd arnom i gydymffurfio â hwy yn ystod y flwyddyn honno.

- Derbyniodd Cyngor Sir Penfro:-
    - 3 cwyn yn erbyn diffyg cydymffurfio â'r safonau cyflawni gwasanaeth yn ystod blwyddyn ariannol 17/18.
    - Dim cwynion yn erbyn diffyg cydymffurfio â'r safonau llunio polisi yn ystod blwyddyn ariannol 17/18.
    - Dim cwynion yn erbyn diffyg cydymffurfio â'r safonau gweithredu yn ystod blwyddyn ariannol 17/18.